Pêl-rwyd – cafwyd tymor llwyddiannus gyda gêmau yn ystod yr wythnos a phrynhawniau Sadwrn. Diolch i Mrs Bethan James am yr hyfforddiant a'r gefnogaeth barod.

Trawsgwlad – cafwyd tymor prysur iawn eleni. Mae'r disgyblion wedi rhedeg i'r ysgol, i'r cylch ac i Geredigion gan gynnwys cystadleuaeth Dyfed pryd y daeth Danielle Pryce yn gyntaf a Lydia Shaw yn seithfed. Roedd Sian Evans, Hannah Rees, Hannah Morgan, a Sarah Fitzpatrick yn dynn ar eu sodlau. Llongyfarchiadau i bawb a fentrodd mewn unrhyw ras drawsgwlad.

Pêl-droed – llwyddodd 'Bois y Fro' i fynd drwodd i'r gêm derfynol 5 bob ochr y mis nesaf. Pob lwc i chi fel tîm.

Ffarwelio

Cynhaliwyd cyngerdd bach i ffarwelio â Mrs Bethan James a fu gyda ni am ddau dymor yn dysgu Blwyddyn 1 a 2. Cyflwynwyd rhodd iddi ar ran rhieni a phlant blwyddyn 1 a 2 a diolchodd Mr John am ei hymroddiad a phroffesiynoldeb yn y swydd dros y cyfnod. Yn dilyn gyda'r nos cafwyd swper ffarwelio gyda holl staff yr ysgol.